BECHGYN BARGOD RANGERS 12.01.02 – Peter Hughes Griffiths

Tîm Bargoed Rangers yn ardal Dre-fach Felindre (rhwng Castell Newydd Emlyn a Llandysul) oedd y tîm cyntaf i mi ei gefnogi ac yna chwarae iddo,

Unig uchelgais bechgyn yr ardal oedd cael gwisgo crys glas a gwyn y tîm lleol, a bu'n dîm llwyddiannus iawn ers sefydlu'r clwb ym 1921, a braint i mi oedd bod yn aelod o'r tîm arbennig hwnnw a enillodd dri chwpan Cynghrair Ceredigion a hynny deirgwaith yn y pum a'r chwedegau – record na chafodd ei thorri hyd heddiw.

Ond mae cysylltiad agos iawn rhwng llawer iawn o fechgyn y Bargod Rangers â Chlwb Pêl-droed Caerfyrddin ar hyn o bryd gan fod llawer iawn o'r cyn-chwaraewyr i'w gweld ar Barc Waun Dew yn gyson. Mae un o'r is-lywyddion, J Gwynfor Jones yn eistedd yn syth y tu ôl i'r lle mae Tomi Morgan yn sefyll yn ystod y gêm (ac yn clywed pob gair a ddaw o enau Tomi!!). Un o fois Bargod yw'r is-lywydd a'r cefnogwr brwd A T Bernard Davies, ac un arall yw Aneurin Jones o Gwmffrwd sydd newydd symud yn ôl i'r ardal ar ôl bod yn byw ac yn cefnogi Aberystwyth am flynyddoedd. Fe fu Aneurin yn chwarae yn y gôl y tu ôl i mi am sawl tynor – un o'r golwyr gorau a welodd Bargod erioed. Daw John (Dai) Davies gyda chriw Llandysul bob Sadwrn i Barc Waundew ac mae Andy (Bach) Davies a Hywel Morris yn gefnogwyr cyson hefyd.

A chwarae teg, mae cyn-chwaraewyr timau Castellnewydd a Llandysul yn flaenllaw yn ein clwb ni hefyd – Gareth O Jones ac Emlyn Schiavone, a John Evans (Cei Newydd) yn is-lywydd a Wyn Lewis Jones ac Eddie Evans (Eddie Pencae), i enw dim ond un neu ddau.

Diolch i nifer dda o fois eraill yr ardal hon sy'n cefnogi tîm y Dre mor gyson.

Yn wir, o'r bechgyn oedd yn chwarae yn fy amser i dangosodd sawl un fod ei ddoniau oddi ar y cae'n llawn cystal. Yn y timau hynny yn y chwedegau roedd Roy Evans (Roy Trewen), Prifathro presennol Coleg Prifysgol Bangor ac Ainsleigh Davies (Ains Welsh Stores), Prifathro Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi, Eifion Davies (Eif Bach – ac yntau dros ei chwe troedfedd) sy'n gweithio i Ymddiriedolaeth Derwen, a'i frawd Dyfrig Davies, Ymgynghorydd gyda'r Awdurdod Addysg Lleol a'i fab yntau Huw Davies – y golwr gorau a welais i'n chwarae dros dîm Caerfyrddin, Roy James, cyn-brif Arolygwr Ysgolion Cymru, a Gareth Crompton, cyn-Brif Feddyg y Swyddfa Gymreig. Yn wir, gallwn fynd ymlaen ac ymlaen. John Davies (John Cwrt), cyn golwr Caerdydd a Dinas Hull yw'r unig un o'r clwb a aeth yn chwaraewr proffesiynol. Ym 1975 roedd e'n chwarae dros Bargod Rangers ac ym 1976 roedd e'n chwarae i Gaerdydd.

Dyddiau da oedd y dyddiau hynny. Cewch fwy o hanes y clwb a'i chwaraewyr cyn diwedd y tymor!